

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

## (MEMORANDWM RHIF 3)

### Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (“LCM”) hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (“y Bil”) yn Nhŷ’r Cyffredin ar 22 Medi 2022, a gosodwyd LCM yn seiliedig ar y Bil fel y’i cyflwynwyd.
3. Cyflwynwyd 15 o welliannau gan Lywodraeth y DU<sup>1</sup> i’r Bil ar 16 Tachwedd, i’w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin, ac ystyriwyd y rhain yn yr [LCM\(2\) atodol](#) a osodwyd ar 21 Rhagfyr.
4. Ar 11 Ionawr 2023, cyflwynodd Llywodraeth y DU 19 o welliannau pellach<sup>2</sup> i’r Bil, cyn y Cyfnod Adrodd, a gynhaliwyd ar 18 Ionawr. Ystyrir y gwelliannau hyn yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn.
5. Mae’r Bil, fel y’i dygwyd ymlaen o Dŷ’r Cyffredin, i’w weld yn: [Retained EU Law \(Revocation and Reform\) Bill \(parliament.uk\)](#).
6. Ysgrifennais at y Llywydd ar 13 Ionawr i amlinellu nad oedd digon o amser wedi bod i egluro goblygiadau’r newidiadau hyn yn y Bil ar gyfer datganoli, ac yn ehangach, gan na wnaeth Llywodraeth y DU rannu cynnwys gwelliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth cyn eu cyflwyno, ac na fyddai’n bosibl gosod LCM atodol o fewn y cyfnod arferol o bythefnos. Yn fy llythyr hefyd, nodais y byddem yn aros am gasgliad Cyfnod Adrodd Tŷ’r Cyffredin i gasglu unrhyw welliannau pellach a gyflwynwyd neu y cytunwyd arnynt. Nid oedd unrhyw welliannau o’r fath.

### Amcan(ion) Polisi

7. Disgrifiwyd amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir (“REUL”) yn ei dogfen Benefits of Brexit ym mis Ionawr 2022, yn amlinellu ‘Our intent is to amend, replace, or repeal all the retained EU law that is not right for the UK’<sup>3</sup>.

### Crynodeb o’r Bil

---

<sup>1</sup> Cyfnod Pwyllgor: Dydd Mercher 16 Tachwedd 2022 – Gwelliannau a gyflwynwyd: [retained\\_rm\\_pbc\\_1116.pdf \(parliament.uk\)](#)

<sup>2</sup> Cyfnod Adrodd; Dydd Mercher 11 Ionawr 2023 – papur gwelliannau: [retained\\_rep\\_rm\\_0111.pdf \(parliament.uk\)](#)

<sup>3</sup> [The Benefits of Brexit: How the UK is taking advantage of leaving the EU \(publishing.service.gov.uk\)](#)

8. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

9. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cwmpasu'r canlynol:

- Diddymu (machlud) neu gymhathu REUL erbyn diwedd 2023.
- Diddymu'r egwyddor o oruchafiaeth cyfraith yr UE o gyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
- Hwyluso llysoedd domestig i wyro oddi wrth gyfraith achosion a ddargedwir.
- Darparu mecanwaith i Swyddogion Cyfraith Llywodraethau'r DU a'r Llywodraethau Datganoledig ymyrryd mewn achosion ynglŷn â REUL, neu eu hatgyfeirio at lys apêl, lle bo'n berthnasol.
- Diddymu hawliau a rhwymedigaethau cyfraith yr UE sydd ag effaith uniongyrchol yng nghyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
- Diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yng nghyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
- Sefydlu rheol flaenoriaeth newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir (RDEUL) gael ei dehongli a'i chymhwyso'n gyson â deddfwriaeth ddomestig.
- Israddio statws RDEUL at ddiben ei diwygio'n haws.
- Creu cyfres o bwerau sy'n caniatáu i REUL gael ei dirymu neu ei disodli, ei hailddatgan neu ei diweddarau a'i dileu neu ei diwygio i leihau beichiau.

10. Mae'r Bil yn gwneud newidiadau i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("EUWA"), sy'n ddeddfiad gwarchodedig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae cymalau amrywiol o fewn y Bil (fel yr amlinellir isod) yn addasu'r darpariaethau presennol o fewn EUWA, ac o'r herwydd yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a'r LCM(2) atodol, y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer erbyn hyn**

11. Mae'r tabl yn atodiad 1 yn disgrifio gwelliannau Llywodraeth y DU ac yn ystyried eu heffaith. Fodd bynnag, ar y cyfan gellir rhannu gwelliannau Llywodraeth y DU yn bedwar categori:

- a. gwelliannau sy'n ymwneud ag estyn y dyddiad machlud;
- b. gwelliannau sy'n ymwneud ag "assimilated law" ("cyfraith gymathedig");
- c. gwelliannau sy'n ymwneud ag ystyr "restatement" ("ailddatgan");
- d. gwelliannau sy'n ymwneud â'r Prif Droseddlys (*High Court of Justiciary*).

12. Mae'r gwelliannau i gymalau 2, 6, 14 a 22 o'r Bil yn addasu cymalau a oedd oll yn cael eu hystyried yn 'ddarpariaethau perthnasol' ac o fewn cwmpas Rheol Sefydlog 29 at ddiben yr LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd. Rydym o'r farn bod angen LCM atodol mewn perthynas â'r gwelliannau i'r cymalau hynny ar y sail eu bod hefyd yn gwneud darpariaeth berthnasol.

13. Ystyrir hefyd bod y cymal newydd (“*Assimilated law*”) a’r Atodlen newydd (“*Assimilated law: consequential amendments*”), a fewnosodir yn lle’r cymal 6 gwreiddiol yn y Bil, hefyd yn ddarpariaethau perthnasol a’u bod o fewn cwrpas Rheol Sefydlog 29. Credir hyn am yr un rheswm ag a nodir yn y dadansoddiad cymhwysedd ar gyfer y cymal 6 gwreiddiol, sydd i’w weld ym mharagraff 55 o’r LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd, hy, i’r graddau y mae at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i’r graddau y mae hyn yn berthnasol i feysydd datganoledig. Mae hefyd yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhinwedd addasu EUWA, sy’n ddeddfiad gwarchoddedig.
14. Nid ydym o’r farn y dylid gosod LCM atodol mewn perthynas â’r gwelliannau sy’n ymwneud â’r Prif Droseddlys, ar y sail eu bod yn ymwneud yn benodol â’r Prif Droseddlys, rhan o system farnwrol yr Alban.

### **Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y’i diwygiwyd**

15. Nid yw safbwynt y Llywodraeth a nodir yn yr LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd<sup>4</sup> wedi newid gan fod y Bil yn parhau i gyflwyno’r un pryderon cyfreithiol, cyfansoddiadol, polisi ac ymarferol. Mae’r pryderon hyn wedi’u trosglwyddo i Lywodraeth y DU, ac nid aed i’r afael â hwy mewn gwelliannau dilynol i’r Bil.
16. Ar y sail nad yw Llywodraeth y DU wedi mynd i’r afael ag unrhyw un o’r pryderon (a amlinellir yn ein LCM) ni fyddwn yn gallu argymhell i’r Senedd ei bod yn rhoi cydsyniad i’r Bil fel y mae wedi’i ddrafftio ar hyn o bryd.

### **Goblygiadau ariannol**

17. Nid yw’n glir o hyd ar wyneb y Bil a fydd goblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru neu i’r Senedd, yn deillio o’r pwerau dan y Bil.

### **Casgliad**

18. Fel y nodwyd uchod, mae’r gwelliannau i gymalau 2, 6, 14 a 22 o’r Bil, a mewnosod NC1 ac NS1 (yn lle’r cymal 6 gwreiddiol yn y Bil), yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd ac felly, mae angen cydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, o gofio ein pryderon parhaus am y Bil, nad yw’r gwelliannau yn mynd i’r afael â hwy, nid ydym mewn sefyllfa i argymhell bod cydsyniad yn cael ei roi i’r manylion a gynhwysir yn y Bil, nac i ddarpariaethau eraill y Bil, fel y’u nodir yn yr LCM gwreiddiol.

### **Mick Antoniw AS**

### **Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**

### **Chwefror 2023**

---

<sup>4</sup> Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) [MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL \(senedd.cymru\)](#)

Atodiad 1 – gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 11 Ionawr 2023, ac y cytunwyd arnynt wedi hynny yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin.

Rhif y Gwelliant <sup>5</sup>	Cymal sy'n cael ei ddiwygio	Sylwadau
Gwelliannau sy'n ymwneud ag estyn y dyddiad machlud		
Llyw 1	Cymal 2: estyn machlud o dan adran 1	<p>Gwelliant technegol.</p> <p>Mae'r gwelliant hwn yn mewnosod is-gymal newydd sy'n egluro bod rheoliadau a wneir o dan is-adran 2(1) sy'n estyn y dyddiad machlud ar gyfer offeryn neu ddisgrifiad o ddeddfwriaeth i'w darllen fel pe baent yn cyfeirio at yr offeryn neu'r disgrifiad fel y mae'n cael effaith yn union cyn yr amser pan fyddai'r machlud wedi bod yn gymwys mewn perthynas ag ef fel arall.</p>
Gwelliannau sy'n ymwneud ag "assimilated law" ("cyfraith gymathedig")		
Llyw 3	Cymal 6 "cyfraith gymathedig"	<p>Gwelliant technegol.</p> <p>Mae'r gwelliant hwn yn dileu'r cymal 6 gwreiddiol yn y Bil, sy'n cael ei ddisodli gan NC1 ac NS1, fel y'u disgrifir yn fanylach isod.</p> <p>Mae'r cymal 6 gwreiddiol yn sefydlu "cyfraith gymathedig" fel corff newydd o'r gyfraith ac yn darparu, bob amser ar ôl diwedd 2023, y bydd REUL sy'n parhau mewn grym yn cael ei galw'n "gyfraith gymathedig". Mae hefyd yn ei gwneud yn glir bod diwygiadau canlyniadol a wneir o dan gymal 19 yn caniatáu ar gyfer diwygio EUWA, a chaniateir diwygio deddfiadau eraill hefyd o ganlyniad i ailenwi REUL.</p>
NC1 ac NS1	Darpapiaethau newydd yn ymwneud â chyfraith gymathedig.	<p>Mae'r gwelliannau hyn yn ddarpapiaethau newydd yn lle'r cymal 6 gwreiddiol yn y Bil (fel y nodir uchod), a'u nod yw sicrhau gwell eglurder o ran ailenwi REUL a sut y rhoddir hyn ar waith.</p> <p><b>NC1:</b> mae is-gymalau 6(1) a 6(2) yn nodi y bydd "cyfraith yr UE a ddargedwir" (a chyrrff cysylltiedig neu fathau o gyfraith gysylltiedig) yn cael ei galw'n "gyfraith gymathedig" ar ôl diwedd 2023 (a themau tebyg). Mae tabl o dermau perthnasol wedi'i gynnwys er mwyn</p>

<sup>5</sup> Mae'r gwelliannau wedi'u trefnu yn ôl y categorïau a amlinellir ym mharagraff 11 ar dudalen 2.

		<p>dangos pa dermau a ddefnyddir i ddisgrifio REUL cyn 2023 ac wedi hynny.</p> <p>Mae is-gymal 6(3) yn cyfeirio at Atodlen 1 newydd (“Assimilated law”: consequential amendments), a fewnosodir gan <b>NS1</b>. Mae’n yn cynnwys diwygiadau o ganlyniad i ailenwi cyrff neu fathau o gyfraith gan is-gymal 6(1), gan gynnwys diwygiadau i EUWA a’r Bil ei hun.</p> <p>Mae is-gymal 6(4) yn darparu ar gyfer ‘glos dehongli’, fel bod cyfeiriad mewn deddfiad at “gyfraith yr UE a ddargedwir” i’w ddarllen, bob amser ar ôl diwedd 2023, fel cyfeiriad at “gyfraith gymathedig”. Mae is-gymal 6(5) yn darparu nad yw glos o’r fath yn berthnasol i unrhyw deitl deddfiad nac i unrhyw gyfeiriad at deitl deddfiad.</p> <p>Mae is-gymal 6(6) yn egluro y caniateir defnyddio rheoliadau o dan gymal 19 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol) i wneud darpariaeth i ddiwygio deddfiad o ganlyniad i’r ailenwi yn is-gymal 6(1). Mae hefyd yn darparu y caniateir defnyddio rheoliadau o dan gymal 19 i ddiwygio cyfeiriadau yn is-gymal 6(1) er mwyn cynnwys termau ychwanegol sy’n ymwneud â REUL (neu derminoleg debyg).</p> <p>Mae is-gymal 6(7) yn cynnwys diffiniadau ar gyfer yr eitemau a restrir yn is-gymal 6(1).</p>
Llyw 4 a Llyw 5	Cymal 22: Cychwyn, trosiannol ac arbedion.	<p>Gwelliant technegol.</p> <p>Mae’r gwelliannau hyn yn egluro (i) bod is-gymalau 6(1), (2) a (4) i (7) o NC1 yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio; a (ii) nad yw’r gwelliannau a wneir gan yr Atodlen a fewnosodir gan NS1 yn gymwys unrhyw amser ar ddiwedd 2023 neu cyn diwedd 2023.</p>
Gwelliannau sy’n ymwneud ag ystyr “restatement” (“ailddatgan”).		
Llyw 2	Cymal 14: Pwerau i ailddatgan neu atgynhyrchu: cyffredinol	<p>Gwelliant technegol.</p> <p>Mae cymal 14 yn sefydlu’r paramedrau cyffredinol o ran yr hyn y gall ailddatganiad o dan gymalau 12 a 13 ei wneud a sut y dylid ei</p>

		gyflawni. Mae'r gwelliant hwn yn egluro y gall aiddatganiad ymdrin yn benodol â chodeiddio.
--	--	---